**Rhif: 1**

| | |
|---|---|
| **Cais Rhif:** | **C24/0977/18/LL** |
| **Dyddiad Cofrestru:** | **18/11/2024** |
| **Math y Cais:** | **Llawn** |
| **Cymuned:** | **Llanddeiniolen** |
| **Ward:** | **Deiniolen** |
| **Bwriad:** | **Gwaith adfer i'r safle yn cynnwys addasiadau mewnol ac allanol** |
| **Lleoliad:** | **Amgueddfa Llechi, Gilfach Ddu, Llanberis, Caernarfon, Gwynedd, LL55 4TY** |
| **Crynodeb o'r Argymhelliad:** | **CANIATÁU GYDAG AMODAU** |

## 1. Disgrifiad:

1.1. Cais cynllunio llawn ar gyfer gwaith adfer i'r safle yn cynnwys dymchwel y caffi a'r siop a chodi adeiladau newydd.

1.2 Mae'r safle yn un mawr ac yn weddol cymhleth oherwydd maint y safle. Yn gryno mae'r adeiladau wedi lleoli ac yn wynebu'r gogledd ble mae'r prif fynedfa. Hwn yw'r darn mwyaf trawiadol o'r safle, ac mae hwn wedyn yn agor i fynd i'r cwrt mewnol, sydd yn lecyn agored ble'r gellir gweld y safle yn glir. Mae mewn siâp sgwâr, ac er hwyluso'r disgrifiad mi rhanni'r y safle i'r prif fynedfa yn y gogledd, adeiladau o fewn y cwrt mewnol, y rhannau dwyreiniol, de a gorllewinol o'r cwrt ac wedyn y rhannau i'r de o'r safle ble mae'r caffi a'r olwyn ddŵr. Mae pob ystafell o fewn y safle wedi'i rhifo, ac felly defnyddir rhain er mwyn hwyluso disgrifiad y cais.

1.3 Mae rhan helaeth o'r gwaith yn waith adfer mewnol, ac nid oes angen hawl cynllunio ffurfiol i rhain, ond maent wedi ei asesu o fewn y cais adeilad rhestredig cysylltiedig.

1.4 O fewn cwrt mewnol y safle wrth gerdded drwy'r brif fynedfa mae'r siop bresennol sydd yn adeilad modern. Bwriedir dymchwel hwn ac ail-godi adeilad newydd. Mae'r siop bresennol y siâp crwn, byddai'r adeilad newydd yn un sgwâr wedi lleoli ar yr un oel-troed. Bydd allan o gladin "GRC" sef paneli concrid wedi cryfhau o liw coch gyda tho haearn llwyd. Byddai'r ffenestri a drysau allan o haearn hefyd.

1.5 Gyferbyn i'r siop bwriedir codi canopi newydd a fyddai fel cysgodfa i'r ymwelwyr. Bydd yn siâp sgwâr gyda tho o shitiau rhychiog coch a'r ochrau i gyd yn agored.

1.6 Yn y rhan gorllewinol o'r safle mae'r ystafelloedd sydd yn dilyn o'r prif ffwndri, sef ystafell hollti llechi, ystafell gof ac wedyn ystafelloedd gosod. Ni fwriedir gwneud unrhyw waith i rhain. Ar gefn yr adeiladau yma mae ystafell fach G17 sydd yn wasanaethol drwy'r brif ystafell. Bwriedir creu agoriad newydd allanol i hwn er mwyn cael mynediad i ochr y safle ble fydd iard newydd wedi creu er mwyn storio materion perygl fel olew, paent ayyb sydd angen ffens i'w cadw i mewn. Bwriedir hefyd gosod ffens ar y rhan yma o'r safle.

1.7 Ar yr ochr mewnol o'r rhan yma, yn ganol y safle o fewn y cwrt mae'r "cropping shed" sef ystafell rhif G39 sydd ar y funud yn rhannol agored gydag adeilad carreg fach yn sownd iddo (G40). Ble mae'r adeilad yn agored ar y ddwy ochr yn bresennol bwriedir gosod drysau llithro ar bob ochr. Byddai'r drysau yma yr un peth ar y ddwy ochr, ac yn uchder llawn i'r agoriad, gyda phaenau gwydr ar y rhan uchaf a phren ar y gwaelod. Bwriedir hefyd codi estyniad ar y pen er mwyn creu toiledau newydd. To un ochr fyddai'r adeilad wedi gorchuddio a shitiau dur coch. Ble mae'r adeilad carreg bresennol, byddai'r wal talcen yn cael ei dynnu i lawr er mwyn ail-godi yn uwch er mwyn ffurfio'r talcen o'r adeilad newydd. Ar ochr y prif adeilad yma hefyd bwriedir codi gweithdy bach newydd a fydd eto o'r un deunyddiau, a rhwng y ddau adeilad yma bwriedir gosod dwy uned awyru a fyddai wedi gorchuddio gyda ffens dur.

1.8 Yn G10, y ffwndri, y prif newid yw ail-agor agoriad presennol sydd eisoes wedi'i gau fyny ers peth amser. Bwriedir ail-agor hwn a gosod drysau dwbl pren i gyd-fynd a'r gweddill o fewn yr iard.

1.9 Yn y rhan deheuol o'r safle o fewn ystafell G05, bwriedir tynnu rhai waliau pared modern o fewn yr ystafell er mwyn ei ddefnyddio fel ystafell arddangosiad. Bwriedir hefyd lledu'r agoriad

presennol o G04 i'r ystafell hwn mymryn. Mae drysau dwbl presennol ar ochr deheuol yr ystafell yn agor i mewn, bwriedir newid hyn i agor allan.

1.10 I'r gogledd, tuag at y prif fynedfa mae ystafell G02 a G01 sef y caban a'r theatr. Nid oes unrhyw newid yn fewnol i rhain, ond oherwydd y gwaith i ail-leoli'r offer gwasanaethu i'r wal er arbed gofod, mae angen system awyru. Y bwriad yw gosod dau fent newydd a fyddai'n edrych fel y fentiau 'cat-slide' fel sydd ar weddill yr edrychiad yma.

1.11 Ar ochr deheuol o'r safle mae'r olwyn ddŵr a'r caffi presennol. Mae'r caffi yn adeilad modern a bwriedir dymchwel hwn ac ail-godi adeilad newydd ar yr un oel-troed ond yn sylweddol mwy. Bwriedir cael caffi, cegin, toiledau ac ystafell ddysgu ar y llawr daear ynghyd ag ardal biniau ac ail-gylchu, gyda llawr cyntaf yn darparu ystafell ddysgu arall a thoiledau. Byddai'r adeilad yn gryno mewn siâp sgwâr a tho crib haearn gyda ffenestri to ar y cefn a dwy ffenestr gromen ar y blaen (yr edrychiad sydd yn edrych i mewn i'r cwrt) a'r paneli concrid coch fel cladin.

1.12 Nid oes unrhyw waith i'r teras Fron Haul yn ffurfio rhan o'r cais hwn.

1.13 Mae gwaith tirlunio hefyd yn ffurfio rhan sylweddol o'r safle ynghyd a gwaith draenio i uwchraddio'r safle yn ei gyfanrwydd.

1.14 Saif safle Gilfach Ddu ym Mhentref Llanberis, ond tu allan i ffiniau datblygu'r pentref. Mae'r adeiladau yn rhestredig gradd I gyda'r olwyn ddŵr yn heneb. Mae'r safle hefyd o fewn Safle Treftadaeth y Byd y diwydiant Llechi yn ogystal â'r Tirlun o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol.

1.15 Derbyniwyd arolygon bywyd gwyllt, datganiad dyluniad a mynediad, datganiad trafnidiaeth, arolwg goleuadau, materion draenio, datganiad seilwaith gwyrdd ynghyd ag arolwg archeolegol. Cyflwynwyd y cais i'r Pwyllgor oherwydd maint y safle.

## 2. Polisïau Perthnasol:

2.1 Mae Adran 38(6) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 a pharagraff 2.1.2 Polisi Cynllunio Cymru yn pwysleisio y dylid penderfynu ceisiadau yn unol â'r Cynllun Datblygu, oni bai bod ystyriaeth faterol cynllunio yn nodi fel arall. Mae ystyriaethau cynllunio yn cynnwys Polisi Cynllunio Cenedlaethol, a'r Cynllun Datblygu Lleol.

2.2 Mae'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhoi dyletswydd ar y Cyngor i ymgymryd â chamau rhesymol wrth arfer ei swyddogaethau i gyflawni'r 7 amcan llesiant sydd o fewn y Ddeddf. Mae'r adroddiad hwn wedi'i baratoi gan ystyried dyletswydd y Cyngor a'r 'egwyddor datblygu gynaliadwy', fel sydd wedi'i ddatgan yn Neddf 2015. Wrth ffurfio'r argymhelliad mae'r Cyngor wedi ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau.

2.3 **Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011-2026 mabwysiadwyd 31 Gorffennaf 2017**

PCYFF 1: Ffiniau Datblygu

PCYFF 2: Meini prawf datblygu

PCYFF 3 : Dylunio a siapio lle

PCYFF 4: Dylunio a thirweddu

PS 5: Datblygu cynaliadwy

PS 6:Lliniaru Effeithiau Newid Hinsawdd ac Addasu Iddynt

AMG 2: Ardaloedd o Dirwedd Arbennig

AMG 5: Cadwraeth Bioamrywiaeth Leol

PS 19: Gwarchod a ble’n briodol gwella’r amgylchedd naturiol

PS 1: Yr Iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig

PS 4 : Trafnidiaeth gynaliadwy, datblygiad ac hygyrchedd

TRA 2: Safonau parcio

TRA 4 : Rheoli ardrawiadau cludiant

PS 14: Yr Economi Ymwelwyr

TWR 1: Atyniadau a Chyfleusterau Ymwelwyr

AT 1 (STB Llechi): Ardaloedd Cadwraeth, Safleoedd Treftadaeth y Byd a Thirweddau, Parciau a Gerddi Hanesyddol Cofrestredig (Tirwedd Llechi)

PS 20: Diogelu a ble’n briodol gwella asedau treftadaeth

2.4 **Polisïau Cenedlaethol:**

Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040

Polisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 11 - Chwefror 2021)

Nodyn Cyngor Technegol 12: Dylunio

Nodyn Cyngor Technegol 13: Twristiaeth

Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr amgylchedd hanesyddol

**3. Hanes Cynllunio Perthnasol:**

3.1 C00A/0347/18/CR – Adnewyddu cyn sied lo di ddefnydd presennol o fod yn floc toiled i'w ddefnydd gwreiddiol fel storfa lo a golchfan fel rhan o ddefnydd yr Amgueddfa – Caniatawyd 29-08-2000

C00A/0606/18/CR – Pump camerâu CCTV – Caniatawyd 25-01-2001

C00A/0607/18/LL - Pump camerâu CCTV – Caniatawyd 15-12-2000

C22/0046/18/CR - Dymchwel "loco pit" presennol carreg ac amnewid gyda un o ddeunydd conrid – Caniatawyd 15-02-2022

C24/0976/18/CR Gwaith adfer i'r safle yn cynnwys addasiadau mewnol ac allanol – Wedi anfon lawr at sylw Cadw – yn disgwyl penderfyniad

**4. Ymgynghoriadau:**

| | |
| --- | --- |
| Cyngor Cymuned/Tref: | Heb eu derbyn |
| Uned Drafnidiaeth: | Cyfeiriaf at y cais uchod a gadarnhaf nad oes gan yr uned drafnidiaeth wrthwynebiad |
| Cyfoeth Naturiol Cymru: | Mae gennym bryderon am y cais fel y'i cyflwynwyd. Er hynny, rydym yn fodlon y gellir goresgyn y pryderon hyn drwy osod yr amodau isod ar unrhyw ganiatâd cynllunio a roddir:<br>**Amod 1: Cynllun goleuo.**<br>**Amod 2: Cynllun Rheoli Amgylcheddol Adeiladu (CEMP).**<br>Dalier sylw, heb gynnwys yr amodau hyn byddem yn gwrthwynebu'r cais cynllunio yma. Ceir rhagor o fanylion isod.<br>**Rhywogaethau a Warchodir**<br>Rydym wedi adolygu'r dogfennau amgylcheddol a ddarparwyd i gefnogi'r cais cynllunio uchod, gan gynnwys yr adroddiad arolwg ymddangosiad ystlumod (SK Environmental Solutions Ltd, Medi 2024) a'r adroddiad Strategaeth Goleuo (Hydock, 12/11/2024).<br>Mae'r adroddiad arolwg ymddangosiad ystlumod yn dod i'r casgliad fod clwydfannau mamolaeth ystlumod soprano pipistrelle yn nho'r prif adeilad (Adeilad 4), gyda mynediad i'r talcen dwyreiniol, ac mae nifer o glwydfannau dydd i ystlumod unigol pipistrelle cyffredin a soprano wedi eu gwasgaru o amgylch y safle. Mae nifer o rywogaethau ystlumod eraill wedi eu cofnodi gan gynnwys yr ystlum bedol leiaf yn cymudo/fforio drwy ac o gwmpas y safle.<br>Daw'r adroddiad i'r casgliad y bydd angen trwydded EPS gan CNC i |

ymgymryd â'r gwaith er mwyn peidio aflonyddu ar yr ystlumod na difrodi neu ddifetha unrhyw glwydfannau. Efallai y bydd gwaith arall sydd ddim angen trwydded hefyd angen goruchwyliaeth ecolegol wrth ymgymryd ag ef.

Rydym yn fodlon gyda chasgliad yr adroddiad ystlumod. Er hynny, rydym yn cynghori bod gennym y pwyntiau ychwanegol a ganlyn i'w hystyried, yn bennaf yn ymwneud â'r Strategaeth Oleuo:

1. Nid oes unrhyw luniad yn yr adroddiad ymddangosiad ystlumod i ddangos llwybrau hedfan yr ystlumod a gofnodwyd. Mae angen y llwybrau hyn wrth asesu effaith a lleoliadau'r unedau goleuadau, a bydd angen osgoi goleuo llwybrau hedfan yn ogystal â mannau mynediad i'r clwydfannau. Argymhellwn fod cynllun o'r fath yn cael ei ddarparu.

2. Mae'n ymddangos fod nifer yr unedau goleuo yn ormodol, yn enwedig ym mlaengwrt gogleddol yr adeilad (14 bolard ble yn hanesyddol nid oedd un) ac i'r de o'r glwydfan liniaru rhwng adeilad 4 a'r caffi (7 uned oleuo yng nghornel ardal allanol y caffi). Argymhellwn y dylid adolygu hyn.

3. Nid yw manylion yr unedau goleuadau wedi eu darparu, dim ond datganiad eu bod i gael eu cymeradwyo gan yr awyr dywyll. Mae angen manylion yr unedau e.e. a fydd gan y bolardiau lain 1800 neu 3600, a fydd y bylbiau yn weladwy ar yr unedau ac a fydd y goleuadau yn cael eu gostwng mewn unrhyw ffordd.

4. Dim ond un model fertigol o’r goleuadau a gyflwynwyd (ar gyfer y llwybr mynediad i'r cefn). Byddai modelu fertigol o'r agweddau eraill o gymorth i ddeall sut mae'r goleuadau yn debygol o gael effaith ar ystlumod wrth iddynt ddynesu at a mynd heibio'r adeilad.

Nodwn fod y gosodiad goleuadau a gyflwynwyd yn ddangosol ac y bydd y dewis goleuadau terfynol yn cael ei fireinio ymhellach. Rydym yn cynghori bod y pwyntiau uchod yn cael eu trafod yn y cynllun goleuo terfynol, a ddylai gael ei gytuno gyda'r ACLl fel amod mewn unrhyw ganiatâd.

**Amod** 1 – Bydd manylion y goleuadau yn cael eu cyflwyno a’u cytuno’n ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol cyn eu gosod. Dylai'r Cynllun Goleuadau gynnwys:

• Manylion lleoli a'r math o oleuadau allanol a ddefnyddir

• Lluniadau yn dangos y golau mewn ardaloedd sensitif allweddol

• Asesiad Effaith Goleuadau Amgylcheddol yn erbyn gofynion cadwraeth i rywogaethau a warchodir.

• Delweddau modelu golau i gyflwyno effeithiau’r goleuadau yn y nos ar edrychiadau adeiladau a'r arwynebau daear o fannau gwylio allweddol

• Manylion y goleuadau i'w defnyddio yn ystod y gwaith adeiladu

a/neu pan fyddant yn weithredol

• Mesurau i fonitro golau unwaith fo'r datblygiad yn weithredol

Bydd y goleuadau yn cael eu gosod a'u cadw fel a gymeradwywyd yn ystod y gwaith adeiladu a/neu pan yn weithredol.

**Cyfiawnhad:** Dylid cyflwyno cynllun goleuo i sicrhau bod y manylion goleuo wedi eu cytuno cyn eu gosod ac i leihau effaith y golau er budd rhywogaethau a warchodir, safleoedd a warchodir, cynefinoedd a choridorau cymudo.

**Safleoedd Gwarchodedig**

Mae'r safle ger afon y Bala sy'n llunio rhan o Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) Llyn Padarn ac mae hefyd o fewn 100 metr o SoDdGA Coed Dinorwig.

Mae afon y Bala yn ardal silio allweddol i bysgodyn Torgoch yr Arctig sy'n nodwedd o SoDdGA Llyn Padarn. Mae pysgod yn silio rhwng 1 Rhagfyr a'r 31 Ionawr. Yn ystod y cyfnod yma rhaid osgoi unrhyw sŵn a goleuadau yn ystod y nos fydd yn amharu ar afon y Bala. Mae trosglwyddo sŵn drwy'r ddaear drwy ddrilio ergydiol/taro'r graig, neu o waith pentyrru yn cael eu hystyried fel y risg mwyaf o ran sŵn, ac mae'n rhaid unai ei fonitro a sicrhau nad oes unrhyw sŵn/dirgryniad yn cael ei ganfod yn afon y Bala, neu beidio â gwneud y fath waith yn ystod y cyfnod mwyaf sensitif i'r Torgoch silio (1 Rhagfyr – 31 Ionawr).

Mae'r Gwerthusiad Ecolegol Cychwynnol, Environmental Solutions Ltd, Cyf: JN00627/D01, Tachwedd 2023 wedi argymell bod Cynllun Rheoli Amgylcheddol Adeiladu (CEMP) yn cael ei ddarparu sy'n cynnwys lliniaru unrhyw risg adeiladu i'r amgylchedd.

Felly, i sicrhau mesurau lliniaru priodol, rydym yn cynghori bod yr amod a nodir isod yn cael ei atodi i unrhyw ganiatâd cynllunio i'r datblygiad hwn.

**Amod** – Ni fydd unrhyw ddatblygiad, gan gynnwys clirio safle, yn dechrau nes bod Cynllun Rheoli Amgylcheddol Adeiladu (CEMP) ar gyfer y safle cyfan wedi'i gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'i gymeradwyo yn ysgrifenedig ganddo. Dylai'r CEMP gynnwys:

• Dulliau adeiladu: manylion deunyddiau, sut y bydd gwastraff a gynhyrchir yn cael ei reoli.

• Rheolaeth Safle Cyffredinol: manylion y rhaglen adeiladu yn cynnwys amserlen, manylion clirio'r safle; manylion draenio'r safle adeiladu, ardaloedd cyfyngu, parthau clustogi o faint priodol rhwng ardaloedd storio (rwbel, olew, tanwydd, cymysgu concrid ac ardaloedd golchi) ac unrhyw gyrsiau dŵr neu ddraen wyneb.

• Rheoli Bioamrywiaeth: manylion gwarchod coed a gwrychoedd; rheoli rhywogaethau ymledol; gwarchod rhywogaethau a

chynefinoedd, mesurau osgoi a lliniaru.

• Rheolaeth y Pridd: manylion stribedi uwchbridd, storio a gwella ar gyfer ailddefnyddio.

• Prif Gynllun CEMP: manylion maint a chyfnodau datblygiad; lleoliad adnoddau tirwedd ac amgylcheddol; cynigion dylunio ac amcanion ar gyfer mesurau integreiddio a lliniaru.

• Rheoli Sŵn a Dirgryniad: manylion y cyfyngiadau a ddefnyddir yn ystod y gwaith adeiladu yn cynnwys amseriad, cyfnod ac amlder y gwaith; manylion mesurau i leihau sŵn a dirgryniad o weithgareddau pentyrru, er enghraifft codi rhwystrau acwstig; manylion mesurau rheoli llwch; mesurau i reoli goleuadau.

• Rheoli Adnoddau: manylion storio a chyfyngu tanwydd a deunydd cemegol; manylion cynhyrchu gwastraff a'i reoli; manylion y defnydd o ddŵr, dŵr gwastraff a'r defnydd a wneir o ynni

• Rheoli Traffig: manylion danfon nwyddau i’r safle, peiriannau ar y safle, cyfleusterau golchi olwynion.

• Atal Llygredd: dangoswch sut bydd Canllawiau perthnasol ar gyfer Atal Llygredd ac arfer dda yn cael eu gweithredu, yn cynnwys manylion gweithdrefnau arllwys argyfwng a chynllun ymateb i ddigwyddiad.

• Manylion y personau a'r cyrff sy'n gyfrifol am weithgareddau sy'n gysylltiedig â'r CEMP a manylion cyswllt mewn argyfwng.

• Clerc gwaith ecolegol i sicrhau cydymffurfiaeth y gwaith adeiladu â chynlluniau cymeradwy a rheoliadau amgylcheddol.

Bydd y CEMP yn cael ei weithredu fel y cymeradwywyd yn ystod cyfnodau paratoi ac adeiladu'r datblygiad.

**Cyfiawnhad:** Dylid cyflwyno CEMP i sicrhau bod y mesurau rheoli angenrheidiol yn cael eu cytuno cyn dechrau ar y datblygiad a'i weithredu i warchod yr amgylchedd yn ystod y gwaith adeiladu.

Nid oes gennym unrhyw bryderon ynglŷn â'r effaith ar SoDdGA Coed Dinorwig.

**Halogiad Tir**

Rydym wedi adolygu'r adroddiadau asesiadau halogi tir a gyflwynwyd i gefnogi'r cais. Hysbyswn mai ychydig iawn o risg ychwanegol sydd i ansawdd dŵr daear o'r datblygiad arfaethedig. Mae'r dŵr daear yn y lleoliad yma wedi bod yn destun ffynonellau hanesyddol o halogi, ond am sawl rheswm, yn ogystal â'r rhai a ddarperir isod, nid ydym yn ystyried ei fod yn ymarferol nac yn arbennig o fuddiol i ymgymryd â mwy o waith i archwilio'r ddaear ac ymgymryd â gwaith adfer.

Rhai rhesymau pam fod gwaith archwilio pellach o'r ddaear / dŵr daear a gwaith adfer yn annhebygol o fod yn ymarferol nac yn fuddiol:

1. Mae halogi o weithgareddau diwydiannol yn y gorffennol yn annhebygol o barhau yn naeareg y llechi, mae'n debygol ei fod wedi ei wanhau a'i waredu dros y degawdau ers i'r ardal fod yn safle diwydiannol weithredol. Mae'r ardal hefyd yn dueddol o gael llifogydd dŵr daear a fyddai hefyd wedi helpu i gael gwared o unrhyw halogi o'r toriadau yn y llechi.

2. O dan y ddaear fas a luniwyd mae daeareg llechi caled yn ei gwneud yn anodd i gynnal archwiliadau daear ymwthiol a gwaith cloddio am ddeunyddiau.

3. Mae gwydnwch geo-technegol cymharol a sadrwydd y garreg-wely hefyd yn ei gwneud yn ddiangen i gloddio seiliau dwfn ar gyfer y datblygiad.

Y prif ddŵr a reolir sydd dan risg yw Llyn Padarn gerllaw, a fedrai fod mewn perygl o lygredd yn ystod unrhyw waith dymchwel, gwaith daear a chyfnodau adeiladu'r datblygiad. Felly, mae’n bwysig bod y datblygwr yn dilyn y canllawiau perthnasol yn 'Guidance for Pollution Prevention (GPP) documents | NetRegs |Canllaw amgylcheddol i'ch busnes yng Ngogledd Iwerddon a'r Alban, yn cynnwys GPP 1, 5, 6, 13. 21 a 22.

Fel yr uchod, rydym yn cynghori bod CEMP yn cael ei gyflwyno cyn cychwyn ar y datblygiad, sy'n cynnwys mesurau i warchod Dyfroedd a Reolir rhag effeithiau posibl y datblygiad, yn cynnwys dŵr daear, Llyn Padarn a'r nodweddion dŵr wyneb cysylltiedig.

**Materion Eraill**

Mae ein sylwadau uchod yn ymwneud yn benodol â materion sydd wedi'u cynnwys ar ein rhestr wirio, Gwasanaeth Ymgynghorol Datblygu Cynllunio: Pynciau Ymgynghori (Medi 2018), sydd wedi'i chyhoeddi ar ein gwefan. Nid ydym wedi ystyried yr effeithiau posib ar faterion eraill ac nid ydym yn diystyru'r posibilrwydd i'r datblygiad arfaethedig effeithio ar faterion eraill.

Atgoffwn yr ymgeisydd am y ffaith mai ei gyfrifoldeb ef yw sicrhau ei fod yn cael yr holl drwyddedau/caniatadau eraill sy’n berthnasol i’w ddatblygiad, yn ogystal â chaniatâd cynllunio. Cyfeiriwch at ein gwefan am fanylion pellach.

| | |
| --- | --- |
| Dŵr Cymru: | Cynnig amod safonol |
| Uned Gwarchod y Cyhoedd: | Heb eu derbyn |

Uned Draenio:

Ers y 7fed Ionawr 2019, mae angen systemau draenio cynaliadwy (SDC) i reoli dŵr wyneb ar gyfer pob datblygiad newydd o fwy nac 1 tŷ neu lle mae'r arwynebedd adeiladu gydag oblygiadau draenio yn 100m2 neu fwy. Rhaid i systemau draenio fod wedi eu dylunio a'u hadeiladu yn unol â safonau gofynnol ar gyfer draenio cynaliadwy a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru.

Rhaid i'r systemau hyn gael eu cymeradwyo gan Gyngor Gwynedd yn ei rôl fel Corff Cymeradwyo SDC (CCS) cyn y bydd gwaith adeiladu'n dechrau.

Oherwydd maint a natur y datblygiad bydd angen darparu cais i'r Corff Cymeradwy SDS i'w gymeradwyo cyn dechrau'r gwaith adeiladu. Mae'r wybodaeth a ddarparwyd yn awgrymu fod y datblygwr yn bwriadu defnyddio mesuriau cynialadwy addas i ddraenio'r safle, ond nes y gwneir cais i'r CCS nid oes sicrwydd y byddai'r cynllun y safle yn galluogi cydymffurfiaeth â'r gyfres lawn o safonau SDC cenedlaethol.

https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Trigolion/Cynllunio-a-rheolaeth-adeiladu/Cynllunio/System-Draenio-Cynaliadwy.aspx

Uned Bioamrywiaeth:

Cyflwynodd yr ymgeisydd yr adroddiadau isod sy'n berthnasol i'r nodweddion ecolegol:

- GWERTHUSIAD ECOLEGOL CYCHWYNNOL SK Environmental Solutions Ltd Tachwedd 2023
- ADRODDIAD AROLWG YMDDANGOSIAD YSTLUMOD Medi 2024, SK Environmental Solutions Ltd
- ASESIAD EFFAITH ECOLEGOL SK Environmental Solutions Ltd Medi 2024
- Strategaeth Oleuo, gan Hydrock Consultants Limited, 12 Tachwedd 2024

Sylwadau ar yr Adroddiadau:

Mae'r arolygon a'r adroddiadau wedi cael eu gwneud i safon dda.

Fe wnaeth yr arolygon ystlumod ddod o hyd i sawl clwydfan ystlumod yng ngofod y to yr Amgueddfa Lechi. Cadarnhawyd bod pump clwydfan i ystlumod pipistrelle ym mhrif adeilad yr amgueddfa, gan gynnwys clwydfan famolaeth i ystlumod soprano pipistrelle. Fe wnaeth yr arolwg hefyd adnabod dwy goeden (TN2 a TN3) sydd â'r potensial i gefnogi ystlumod yn clwydo, a bod yr ardal uniongyrchol oddi amgylch yn darparu cynefin cymudo a fforio da i ystlumod gan gyfeirio at glwydfannau ystlumod eraill gwybyddys yn yr ardal oddi amgylch yr amgueddfa.

Mae'r asesiad ecolegol yn ystyried bod gan y gwaith ar y safle y

posibilrwydd o effeithio ar glwydfannau'r ystlumod un ai oherwydd gwaith trwsio i'r to gan rwystro mynediad i glwydfannau'r ystlumod neu arwain at ddinistrio'r glwydfan. Bydd y glwydfan famolaeth pipistrelle yn cael ei chadw a bydd clwydfannau dydd eraill ystlumod pipistrelle un ai’n cael eu cadw neu’n cael eu hadfer.

Mae'r asesiad ecolegol hefyd yn ystyried effaith y goleuadau newydd ar glwydfannau'r ystlumod ac mae cynllun goleuo wedi ei baratoi sy'n cynnwys modelu goleuadau ar uchder o 5 ac 8 metr i asesu’r effaith ar fathau o ystlum sy'n hedfan ar uchder. Er bod rhywogaeth ystlumod pipistrelle yn llai sensitif i lygredd golau na mathau eraill o ystlumod, ac mae'r cynllun goleuo arfaethedig yn sicrhau na fydd y fynedfa i'r glwydfan famolaeth yn agored i olau er mwyn amddiffyn y glwydfan rhag ysgyflaethwyr.

Mae'r Strategaeth Oleuo yn cynnwys arolwg gwaelodlin a gynhaliwyd yn y nos ar 06.11.24 a dywed: "Byddai'r strategaeth oleuo arfaethedig yn cael ei diffodd ar adeg tebyg yn unol â'r amseroedd agor, gan felly gael lefelau dibwys tebyg yn y nos. Y bwriad yw darparu mwy o reolaeth, isafswm lefelau goleuo unffurf a bod yn cydymffurfio â'r awyr dywyll."

Bwriedir cael dwy ffenestr to yn adeilad y caffi a'r bwriad yw manylu ar fleindiau arddangos i gau'r golau allan yn llwyr.

Mae'r goleuadau arfaethedig yn cynnwys bolardiau i oleuo'r llwybr cerdded canolog drwy dir yr amgueddfa, ac mae'r model goleuo yn dangos bod y golau yn 10 lux gan oleuo'r llwybr ar tua 5-1 lux. Mi fyddwn wedi hoffi cael gweld delweddau cliriach o ganlyniadau y modelu, yn enwedig graddfeydd ehangach ar y lefelau lux is.

Gwenoliaid Du – Mae safleoedd nythu i'r Wennol Ddu yn waliau'r olwyn ddŵr a chredaf y bydd yr amgueddfa yn gosod blychau i'r wennol ddu.

Nid oes gennyf unrhyw wrthwynebiad i'r cynnig yma, ac fe argymhellaf yr amodau isod:

1. Unwaith fo'r gwaith adeiladu wedi ei gwblhau bod lefel goleuo'r safle yn cael ei fonitro a bod adroddiad yn cael ei ddarparu i'r Awdurdod Cynllunio Lleol.

2. Gosod blychau i'r Wennol Ddu.

3. Dilyn yr argymhellion yn yr adroddiadau ecolegol a'r arolwg ystlumod

Cadw (heneb):

Cyngor

Ar ôl ystyried y wybodaeth a ddarparwyd yn ofalus, nid oes gennym unrhyw wrthwynebiad i'r datblygiad. Ceir ein hasesiad o'r datblygiad isod.

Mae'r polisi cenedlaethol a rôl Cadw wrth gynllunio wedi'u nodi yn Atodiad A.

Asesiad

Henebion Cofrestredig

CN066 Castell Dolbadarn

CN163 Chwarel Dinorwig: Injan Weindio Hafod Owen, Sied Locomotif, Prif Olwyn Ddŵr a Thai

CN177 Inclên 'A' Barics Chwarel Dinorwig

CN198 Chwarel Lechi Vivian, Inclêns, Walia a strwythurau cysylltiedig

CN288 Anheddiad Cylch Cytiau a Chwt Hirsgwar i'r Gogledd o Orsaf Hebron

CN337 Chwarel Dinorwig

Safleoedd Treftadaeth y Byd:

Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru – Tirwedd Mynydd Chwarel Lechi Dinorwig

Mae ardal y cais o fewn 2km i'r henebion cofrestredig uchod ac o fewn Tirwedd Mynydd Chwarel Lechi Dinorwig yn Safle Treftadaeth y Byd Tirwedd Chwareli Llechi Gogledd Orllewin Cymru.

Gyda'r cais mae Asesiad Effaith Treftadaeth a baratowyd gan Rural Office a PegwA sydd wedi ystyried effaith y cynigion ar leoliadau yr henebion cofrestredig a Safle Treftadaeth y Byd. Daeth i'r casgliad y bydd gan y datblygiad arfaethedig beth effaith ar yr amgylchedd hanesyddol, ond bydd manteision y cynllun yn eu gorbwyso. Yn sgil hynny, ni fyddai'r datblygiad arfaethedig yn effeithio’n andwyol ar osodiadau'r henebion cofrestredig ac ni chaiff effaith andwyol ar werth cyffredinol eithriadol Safle Treftadaeth y Byd. Rydym yn cytuno â'r casgliad hwn.

Heneb: Heb eu derbyn

Ymgynghoriad Cyhoeddus: Rhoddwyd rhybudd ar y safle a hysbyswyd trigolion cyfagos. Mae’r cyfnod hysbysebu wedi dod i ben a ni dderbyniwyd gohebiaeth ar y cais.

## 5. Asesiad o'r ystyriaethau cynllunio perthnasol:

### Egwyddor y datblygiad

5.1 Mae'r Amgueddfa Lechi eisoes yn atyniad poblogaidd iawn yn yr ardal sydd wedi bod yn amgueddfa ers peth amser. Dywed polisi TWR 1 o'r CDLl y cefnogir cynigion i ddatblygu atyniadau neu gyfleusterau ymwelwyr newydd neu i wella ac ehangu safon y cyfleusterau presennol cyn belled a'u bod tu mewn i'r ffin ddatblygu. Pan nad oes cyfleoedd addas ar gael tu mewn i'r ffin ddatblygu, dim ond cynigion sy'n cynnwys yr hyn a ganlyn fydd yn cael eu caniatáu:

1. *Ailddefnyddio adeilad(au) presennol neu safle addas a ddefnyddiwyd o'r blaen, neu*
2. *Ailddefnyddio adeilad(au) presennol neu safle sydd a chyswllt agos ag adeiladau presennol eraill sy'n ffurfio rhan o gyfleuster twristiaeth bresennol.*

5.2. Fel noder uchod, mae'r amgueddfa yn safle twristiaeth bresennol sydd wedi lleoli tu allan i ffin datblygu Pentref Llanberis, ond mae'r egwyddor yn dderbyniol gan mai atyniad presennol yw hi, os yw'r bwriad yn addas o safbwynt graddfa, math a chymeriad y datblygiad i'w osodiad trefol / gweledig.

5.3 Mae'r adeiladau newydd a gyflwynir yn rhan o'r bwriad yma wedi ei ddylunio yn ofalus mewn perthynas â'r safle presennol o ran deunyddiau ac edrychiadau. Mae'r safle yn gyffredinol yn ffurfio rhan o'r Chwarel blaenorol, ac mae'r dyluniadau o'r ffenestri gromen i'r caffi newydd er enghraifft wedi cymryd o'r llethrau hanesyddol er mwyn dilyn y patrwm. Ynghyd hefyd a'r lliwiau coch yn yr adeiladau newydd sydd yn lliw cysgo drwy'r safle i gyd. Fe ystyrir fod y datblygiad arfaethedig o ansawdd uchel o ran dyluniad, gosodiad ac edrychiad ac felly'n dderbyniol.

5.4 Noder fod y safle hwn yn atyniad poblogaidd a phwysig iawn i'r ardal i ddenu pobl, ond mae hefyd yn atyniad pwysig o ran hanes yr ardal sydd hefyd yn gyfleuster addysgol drwy ddenu ysgolion lleol. Mae'r adeilad caffi newydd yn cynnwys ystafelloedd dysgu i'r perwyl hyn. Bydd y datblygiad arfaethedig yn cefnogi ac yn ehangu'r ystod o gyfleusterau ar y safle ac mae yn gyfrannau at gyfleoedd gyflogaeth yn yr ardal ac y byddai'r adeiladau newydd yma yn golygu y byddai hyn yn parhau i'r hir dymor.

5.5 Lle y bo'n briodol, gellir cael mynediad at y datblygiad trwy amryw o ddulliau teithio, yn enwedig dulliau teithio cynaliadwy megis cerdded, beicio a chludiant cyhoeddus. Mae'r safle yn ardal twristiaeth boblogaidd iawn ble mae sawl cludiant cyhoeddus, yn ogystal ag atyniad y trenau ymwelwyr hefyd. Yn dilyn yr asesiad uchod felly teimlir fod y bwriad yn cwrdd a gofynion y polisi perthnasol TWR 1 ac yn dderbyniol mewn egwyddor.

### Mwynderau gweledol a dyluniad.

5.6 Mae polisi PCYFF 3, dylunio a siapio lle yn datgan y caniateir cynigion, gan gynnwys estyniadau a newidiadau i adeiladau a strwythurau presennol dim ond os ellir cydymffurfio gyda'r meini prawf y polisi.

5.7 Fel y noder uchod, teimlir yn yr achos yma y byddai'r bwriad yn ychwanegu at gymeriad a hefyd mwynhad o'r safle yn ei gyfanrwydd drwy'r gwella'r profiad ymweld i ymwelwyr. Nid oes buddsoddiad wedi bod i'r safle mewn peth amser ac mae'r adeiladau erbyn hyn yn dirywio ond hefyd heb y cyfleusterau modern i'r ymwelwyr. Y byddai'r gwaith adfer y prif adeiladau yn gwella defnydd o'r safle a hefyd y mynediad i bawb, ond ni fydd chwaith yn estron o ran dyluniad a deunyddiau.

5.8 Mae dyluniad yr adeiladau newydd wedi eu dylunio o gwmpas nodweddion a strwythurau eraill o gwmpas y safle, fel ni fyddent yn estron o fewn y Tirlun. Mae'r safle yn un trawiadol iawn, yn enwedig wrth gyrraedd y safle ac roedd pryder dros unrhyw adeilad newydd yma o ran y "teimlad o cyrraedd" (sense of arrival), ond teimlir fod y bwriad newydd efo'r to crib a'r stepiau i lawr yn lleihau unrhyw effaith weladwy ac yn uchder fel bod y prif adeilad dal yn weladwy i'r cefn.

5.9 Mae'r dewis o'r deunyddiau wedi bod yn bwysig iawn drwy ddefnyddio deunyddiau diwydiannol fel y shitiau rhychiog a hefyd y dewis o'r lliw coch, sef prif liw ffenestri'r safle. Ac felly credir y byddai'r deunyddiau yn cwrdd a gofynion y polisi yn yr achos yma.

5.10 Oherwydd lleoliad yr adeiladau o fewn safle eang Parc Gwledig, mae darpariaeth parcio eisoes ar y safle ac mae'r bwriad hefyd yn gwella'r defnydd o flaen y safle o ran mynediad ac arwyddion er hwyluso'r profiad ymwelwyr.

5.11 Mae'r holl faterion draenio wedi cymryd i mewn i ystyriaeth wrth ddylunio'r bwriad, ac nid oedd gan yr uned draenio unrhyw wrthwynebiad i'r bwriad.

5.12 Byddai'r lifft newydd yn sicrhau byddai unrhyw berson yn cael mynediad i'r llawr cyntaf ble fel rheol dim ond grisiau sydd yn sicrhau mynediad. Wrth gwrs mi fyddai'r adeilad caffi newydd hefyd yn hollol hygyrch i bawb gyda lifft yn ffurfio rhan o'r dyluniad. Teimlir felly y byddai'r bwriad yn cwrdd a'r maen prawf yma.

5.13 Credir y byddai'r bwriad yn creu amgylchedd iach a bywiog er mwyn gwella'r profiad ymweld presennol a chael mwy o bobl i ymweld â'r safle, a fydd yno i'r dyfodol. Yn dilyn yr asesiad o'r meini prawf perthnasol o bolisi PCYFF 3, teimlir bod egwyddor y bwriad yn dderbyniol yn yr achos yma.

**Mwynderau cyffredinol a phreswyl**

5.14 Mae'r safle Gilfach Ddu yn un trawiadol a phwysig iawn o fewn y pentref, ac yn rhan o dreftadaeth, diwylliant a hanes y safle o fewn cof. Mae'n rhaid ymdrin ag unrhyw newid i'r safle felly yn sensitif iawn, a theimlir fod y driniaeth o'r gwaith i'r prif adeiladau yn lleiafswm sydd angen i'w adfer ac i'w sicrhau i'r dyfodol. Teimlir bod y driniaeth o'r adeiladau newydd yn cynnwys y caffi newydd yn dilyn y patrwm o ran dyluniad, deunyddiau a lliwiau o gwmpas y safle yn bresennol ac ni fydd yn creu unrhyw elfen estron o fewn y safle. O gofio hefyd mae'r safle yn boblogaidd iawn gyda cherddwyr, ymwelwyr i'r parc a safleoedd eraill ni chredir y byddai'r bwriad yn debygol o amharu ar fwynderau eang yr ardal nag ychwaith y Safle Treftadaeth y Byd.

5.15 Nid oed unrhyw drigolion lleol yn byw ger y safle, ond o ystyried ni fyddai unrhyw newid o ran defnydd y safle dim ond uwchraddio'r safle yn gyffredinol, ni chredir y byddai'r bwriad yn amharu ar unrhyw drigolion fodd bynnag. Credir felly fod y bwriad yn cwrdd a gofynion polisïau PCYFF 2, 3, PS20 ac AT1 o'r CDLl.

**Materion trafnidiaeth a mynediad**

5.16 Cyflwynwyd datganiad trafnidiaeth gyda’r cais. Nid oes unrhyw fwriad i newid nag addasu’r rhwydwaith ffyrdd i’r safle na’r ddarpariaeth parcio bresennol gan fod hwn tu allan i berchnogaeth yr ymgeisydd, ond wedi lleoli mewn parc gwledig a wasanaethir gan y Cyngor. Mae darpariaeth parcio staff yr amgueddfa yn parhau fel y presennol heb unrhyw newid. O ran sbwriel ac ail-gylchu’r safle, mae’r caffi newydd yn aros yn lleoliad y caffi presennol ble mae mynediad gwahanol er gwasanaethu hyn, ac ni fydd hwn yn newid. Nid oedd gan yr Uned Drafnidiaeth unrhyw wrthwynebiad i’r bwriad a theimlir bod yn cwrdd a gofynion polisïau TRA 2 a TRA 4 o’r CDLl.

**Materion bioamrywiaeth**

5.17 Cyflwynir adroddiadau bywyd gwyllt efo’r cais yn datgan bod ystlumod yn bresennol yn yr adeiladau. Nid oedd gan yr Uned Bioamrywiaeth unrhyw wrthwynebiad efo’r bwriad ond yn cynnig amodau parthed goleuadau’r safle a hefyd i osod blychau Wenoliaid Du i fyny ac i ddilyn y mesuriadau o fewn yr adroddiad. Roedd sylwadau CNC ar yr un trywydd hefyd yn datgan pryder dros oleuo’r safle ond eto yn cynnig amodau perthnasol er mwyn rheoli hyn. Teimlir felly fod y bwriad yn cwrdd a gofynion polisi AMG 5 o’r CDLl yn yr achos yma.

**Materion Archeolegol**

5.18 Gan fod rhan o’r safle hwn, sef yr olwyn ddŵr yn heneb, nid yw’r gwaith i’r strwythur yma yn ffurfio rhan o’r cais ac y bydd yn ffurfio cais heneb uniongyrchol. Fodd bynnag, mae adroddiad archeolegol wedi cyflwyno gyda’r cais mewn trafodaethau a’r Gwasanaeth heneb o flaen llaw. Ni dderbynnir unrhyw sylwadau gan y gwasanaeth heneb.

**6. Casgliadau:**

6.1 O ystyried yr asesiad uchod, ni chredir y byddai'r bwriad yn debygol o amharu ar gymeriad yr ardal, y safle yn uniongyrchol nag mwynderau'r ardal. Mae'r Gwaith adfer yn hanfodol i ddyfodol y safle ynghyd a’r adeiladau newydd a fyddai’n welliant sylweddol o ran dyluniad a hefyd profiad ymwelwyr y safle. Yn yr achos yma chredir y byddai'r bwriad yn dderbyniol i'w ganiatáu.

**7. Argymhelliad:**

7.1 I ganiatáu’r cais yn ddarostyngedig i’r amodau canlynol:

Caniatau – amodau

1. 5 mlynedd
2. Unol a’r cynlluniau
3. Nwyddau dwr glaw o wneuthuriad haearn bwrw

4. Manylion y drysau newydd i’w gymeradwyo o flaen llaw
5. Morter calch
6. Manylion ffliw / fents i’w gymeradwyo o flaen llaw
7. Manylion y ffens newydd i’w gymeradwyo o flaen llaw
8. Samples carreg
9. Samples o’r deunyddiau i’w defnyddio
10. Unol a gofynion y GIS
11. Amodau Dwr Cymru
12. Amodau goleuadau
13. Amodau bioamrywiaeth / CNC
14. Tirlunio